**EITEM AR YR AGENDA: 9**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PWYLLGOR ARCHWILIO**

**30 Ionawr 2017**

**Diffyg yn y Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol**

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## Diben yr Adroddiad

1 Cael cymeradwyaeth yr aelodau i ddefnyddio'r cyfleuster i fenthyca arian yn dreiglol i ariannu, ymlaen llaw, y diffyg sy'n ddyledus ar gyfer y tair blynedd ariannol 17/18, 18/19 a 19/20. Bydd hyn yn galluogi'r Awdurdod i arbed £138,600 dros y tair blynedd nesaf.

## Cefndir

2 Rhaid i'r Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol gyflawni amcanion statudol allweddol o ran ariannu, sy'n golygu bod angen iddi gael asedau priodol i ymorol am ei ymrwymiadau cronedig. Felly, mae'n ofynnol fod actiwari'r llywodraeth yn mynd ati'n gyson i roi gwerth ar y cynllun pensiwn er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ariannu'n briodol.

3 Mae'r Awdurdod wedi cael canlyniadau'r gwerthusiad actiwaraidd rhagarweiniol ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mae'r adroddiad yn nodi'r diffygion a ganlyn yn ffigyrau'r cynllun pensiwn:

| Blwyddyn | Diffyg |
|---|---:|
| 17/18 | £741,500 |
| 18/19 | £767,100 |
| 19/20 | £793,600 |
| **Cyfanswm** | **£2,302,200** |

4 Mae Cronfa Bensiwn Clwyd wedi hysbysu’r Awdurdod Tân ac Achub y bydd, drwy dalu’r diffygion yn gynharach, yn arwain at arbedion ar daliadau llog sy’n ddyledus ar gyfraniadau’r diffygion. Os telir y tair blynedd yn llawn yn Ebrill 2017, byddai’r arbedion yn £138,600.

5 Ar hyn o bryd, mae’r Awdurdod yn gallu benthyca arian drwy Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn dreiglol ar sail chwe mis, a hynny ar gyfradd is na’r canran arbedion a gynigir gan Gronfa Bensiwn Clwyd. Cadarnhawyd felly y byddai hyn yn fanteisiol i’r Awdurdod Tân ac Achub. Mae yna risg y gallai’r cyfraddau llog godi yn y dyfodol felly doeth fyddai adolygu’r sefyllfa hon ar adeg yr adolygiad actiwaraidd llawn nesaf.

**Argymhelliad**

6 Bod yr aelodau’n cymeradwyo, mewn egwyddor, talu lwmp-swm y diffygion sy’n ddyledus ar gyfer y tair blynedd nesaf yn Ebrill 2017, gan olygu hyd at £138,600 o arbedion dros y tair blynedd ariannol nesaf.